Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

Bwrdd Diogelu Gwent

# Gweithdrefn Gwyno

mewn perthynas â

Chynadleddau Amddiffyn Plant

Cyfarfodydd Strategaeth a Chynadleddau Oedolion

Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion



| | |
|---|---|
| Bwrdd Diogelu Gwent | Fersiwn: 6 |
| Dyddiad y'i cymeradwywyd:02.09.2020 | Dyddiad adolygu: Ionawr 2022 |

**CYNNWYS** **Rhif tudalen**


| | |
|---|---|
| **1.** Diben | **3** |
| **2.** Pwy all gyflwyno cwyn | **3** |
| **3.** Cynadleddau Amddiffyn Plant | **4** |
| **4.** Cynadleddau Amddiffyn Oedolion | **7** |
| **5.** Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion | **10** |
| **6.** Cwynion heb eu datrys | **12** |
| **7.** Adrodd | **12** |
| **Atodiad 1**: Ffurflen Gwyno Bwrdd Diogelu Gwent | **13** |
| **Atodiad 2:** Taflenni ar gyfer achwynwyr | **14** |

## 1. DIBEN

Diben y weithdrefn hon yw sicrhau ymateb amlasiantaethol sensitif a phroffesiynol i'r gwaith o reoli cwynion sy'n deillio o weithrediad prosesau amddiffyn plant ac oedolion amlasiantaethol Bwrdd Diogelu Plant De Ddwyrain Cymru a Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent.

Mae'r weithdrefn yn adlewyrchu'r canllawiau statudol mewn perthynas â Rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac yn ymwneud â'r agweddau canlynol ar swyddogaethau diogelu amlasiantaethol y Bwrdd:

- Cynadleddau Amddiffyn Plant
- Cyfarfodydd Strategaeth a Chynadleddau Amddiffyn Oedolion
- Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion

Yn y lle cyntaf, dylid cyfeirio pob cwyn at yr Asiantaeth neu'r Awdurdod Lleol cyfrifol i'w hystyried o dan eu Gweithdrefnau Cwyno eu hunain.

Nid yw'r weithdrefn hon yn disodli gweithdrefnau cwyno asiantaethau unigol ac ni fydd yn ymdrin â chwynion sy'n cynnwys:

- Unrhyw bryderon neu gwynion eraill ynghylch prosesau asiantaeth unigol
- Gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan asiantaethau i'r plentyn, person ifanc neu oedolyn mewn perygl, neu
- Gwynion am ymarfer proffesiynol unigolyn neu ymddygiad swyddog sy'n bresennol mewn cyfarfod diogelu, cwynion mewn perthynas â chynnwys cofnod ysgrifenedig y gynhadledd/adolygiad ymarfer, y bydd y sawl a gadeiriodd y gynhadledd/adolygiad ymarfer yn ymdrin â hwy

Dylid cyflwyno'r cwynion hyn trwy broses gwynion yr asiantaethau perthnasol.

## 2. PWY ALL GYFLWYNO CWYN?

Gall unrhyw un sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r broses Amddiffyn Oedolion neu Blant gyflwyno cwyn, a fydd yn cael ei hystyried gan y Bwrdd Diogelu perthnasol. Os mae mwy nag un gŵyn am yr un gynhadledd yn dod i law, bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r achwynydd sydd â chyfrifoldeb rhiant. Os na fernir bod y gŵyn yn briodol, bydd y rheswm am y penderfyniad hwn yn cael ei gyfleu i'r achwynydd yn ysgrifenedig[1]. Yn unol â phob sefydliad yn y sector cyhoeddus, bydd cwyn yn cael ei hystyried ar yr amod y caiff ei chyflwyno cyn pen 12 mis ar ôl y dyddiad y cynhaliwyd y gynhadledd. Os gwneir cwyn i'r Byrddau Diogelu, dylai ymwneud â'r gynhadledd neu'r adolygiad a gynhaliwyd ddiweddaraf. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, gall y Panel ar gyfer Cwynion ystyried cynadleddau neu adolygiadau cynharach, o fewn y 12 mis blaenorol, os credir y bydd hyn yn helpu i lywio eu penderfyniadau. Bydd hyn yn cael ei ystyried fesul achos unigol.

Os yw cwyn yn cael ei chadarnhau gan un o'r Byrddau Diogelu a bod cynhadledd/adolygiad ychwanegol wedi'i gynnull gyda Chadeirydd annibynnol newydd, nid yw o fewn cylch gwaith y weithdrefn hon i ystyried cwynion dilynol gan yr achwynydd am y broses cynhadledd/adolygu a gynhaliwyd ar gyfer yr un achos plentyn/oedolyn.

[1] Os yw'r achwynydd yn ymarferydd, efallai y byddai'r Canllawiau Datrys Gwahaniaethau Proffesiynol yn fwy addas. https://www.gwentsafeguarding.org.uk/Documents-en/Children/Protocols-and-Procedures/Regional-Documents/GWENT-Multi-Agency-Practice-Guidance-Resolving-Professional-Differences-2018.pdf

Os yw’r achwynydd yn dal i fod yn anfodlon ar y canlyniad ar ddiwedd y broses gwynion, nid oes modd gwneud dim arall trwy’r weithdrefn hon.

Gweler Atodiad 2 am daflenni ar gyfer achwynwyr.

## 3. CYNADLEDDAU AMDDIFFYN PLANT

Mae’n bosibl y bydd rhieni, gofalyddion a phlant/pobl ifanc sy’n ymwneud â’r broses gynhadledd eisiau cyflwyno cwyn ynghylch un neu fwy o’r agweddau canlynol ar weithrediad y Gynhadledd Amddiffyn Plant diweddaraf:

- Proses y gynhadledd diweddaraf o ran cadw at weithdrefnau;
- Y penderfyniad cofrestru, gan gynnwys y categori, a oedd yn ganlyniad y broses/weithdrefn a ddilynwyd;
- Y penderfyniad i beidio â chofrestru neu i ddatgofrestru, a oedd yn ganlyniad y broses/weithdrefn a ddilynwyd.

### Cam 1 – Datrys gan Gadeirydd y Gynhadledd

Mae Bwrdd Diogelu Plant De Ddwyrain Cymru wedi ymrwymo i ddatrys cwynion ar y cyfle cyntaf ac ar lefel leol os yw hynny’n bosibl. Gall Cadeirydd y Gynhadledd ddatrys llawer o faterion ar y cam hwn o'r broses. Efallai y bydd adegau pan nad yw Cadeirydd y Gynhadledd ar gael neu pan nad yw'n briodol i Gadeirydd y Gynhadledd geisio datrys y gŵyn ar hyn o bryd oherwydd gall y gŵyn ymwneud yn uniongyrchol, neu'n rhannol, â'i arfer neu ymddygiad. Mae arweiniad pellach ar gael ar dudalen 6 sy'n ymwneud â chwynion sy'n ymwneud â Chadeirydd y Gynhadledd. Os yw hyn yn wir, yna dylai'r uwch reolwr ddelio â'r gŵyn, a fydd yn ceisio datrys y gŵyn yng Ngham 1, lle mae hyn yn bosibl, gan ddilyn y broses sydd wedi'i hamlinellu isod.

Dylai cwyn gael ei chyflwyno yn ysgrifenedig, dros y ffôn neu’n bersonol i Gadeirydd y Gynhadledd. Bydd y Cadeirydd yn ceisio datrys y gŵyn cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl i'r gŵyn ddod i law. P'un a yw'r mater wedi'i ddatrys, wedi'i ddatrys yn rhannol ai peidio, bydd Cadeirydd y Gynhadledd yn anfon llythyr ymateb at yr achwynydd yn cadarnhau canlyniad Cam 1. Bydd Rheolwr Gwasanaeth Diogelu'r awdurdod lleol yn cadw copi o'r holl gwynion a'u canlyniadau. Er mwyn osgoi storio cwynion mewn mwy nag un lle, dylai cofnod y gŵyn gael ei gadw yn ganolog gan yr adran cwynion corfforaethol neu adran gyfatebol.

Os na chaiff y gŵyn ei datrys, bydd Cadeirydd y Gynhadledd yn rhoi gwybod i Reolwr Gwasanaeth Diogelu'r Awdurdod Lleol a fydd yn rhoi cyfle i'r achwynydd symud ymlaen i gam nesaf y weithdrefn ac, os oes angen, helpu'r achwynydd i wneud yr atgyfeiriad i Banel Cwynion Diogelu Gwent rhyngasiantaethol.

Gall cwynion gael eu gwneud mewn unrhyw fformat. Pan fu hynny dros y ffôn neu mewn sgwrs wyneb yn wyneb, bydd trawsgrifiad o'r sgwrs honno'n cael ei deipio a'i rannu gyda'r achwynydd iddo fe gael cytuno arno. Efallai y bydd angen cynorthwyo'r sawl sy'n gwneud y gŵyn, e.e. efallai y bydd angen help eiriolwr neu aelod o'r teulu arnynt. Mae Atodiad 1 yn darparu'r wybodaeth leiaf sy'n ofynnol.

Disgwylir i deuluoedd ymgysylltu â threfniadau amddiffyn plant trwy gydol proses Panel Cwynion rhyngasiantaethol Bwrdd Diogelu Gwent (Cam 2).

**Cam 2 – Panel Cwynion rhyngasiantaethol Diogelu Gwent**

Os na ellir datrys y gŵyn ar Gam 1, yna bydd Rheolwr y Gwasanaeth Diogelu'n rhannu'r holl wybodaeth am y camau a gymerwyd i ddatrys y gŵyn â Rheolwr Busnes Diogelu Gwent. Dylai hyn gynnwys copi o'r llythyr y mae Cadeirydd y Gynhadledd/Awdurdod Lleol wedi'i anfon at yr achwynydd yn cadarnhau canlyniad Cam 1.

Bydd y Rheolwr Busnes yn cynnull cyfarfod o Banel Cwynion rhyngasiantaethol Diogelu Gwent. Dylai'r panel gynnwys o leiaf tri chynrychiolydd o'r Bwrdd perthnasol, y bydd un ohonynt yn cadeirio. Bydd un aelod o'r panel yn weithiwr cymdeithasol cymwysedig gyda phrofiad perthnasol. Ni fydd y Panel yn cynnwys unrhyw unigolyn sydd wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r achos sy'n cael ei wrando ac felly bydd yn sicrhau'r annibyniaeth fwyaf posibl yn y broses hon.

Bydd y Rheolwr Busnes yn dosbarthu'r holl ddogfennau perthnasol i aelodau'r panel gan gynnwys y gŵyn wreiddiol ac unrhyw gamau a gymerwyd eisoes i ddatrys y gŵyn o dan Gam 1, unrhyw adroddiadau perthnasol a chofnod(ion) ysgrifenedig y cyfarfod dan sylw. Gall hyn gynnwys gwybodaeth am wneud penderfyniadau a ddigwyddodd cyn y gynhadledd.

Rhoddir gwybod i'r achwynydd am y cyfarfod a rhoddir cyfle iddo fod yn bresennol. Bydd gan yr achwynydd yr hawl i ddod gyda pherson o'i ddewis i'w gefnogi ond nid i'w gynrychioli. Bydd y panel yn cynnig dewis o ddau ddyddiad ar gyfer y gwrandawiad cwyno, a chynigir hyn ddwywaith yn unig (h.y. cyfanswm o 4 dyddiad). Byddai'r dyddiadau hyn yn cyd-fynd ag unrhyw gynadleddau sy'n mynd rhagddynt. Os canfyddir bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd i sicrhau dyddiad rhesymol ac nad yw hyn wedi llwyddo, yna mae'r Bwrdd Diogelu'n cadw'r hawl i ddod â'r broses i ben.

Yng nghyfarfod y Panel, bydd y cadeirydd yn gyfrifol am:

- Gyflwyno'r cyfarfod ac esbonio ei ddiben;
- Esbonio'r hyn y bydd y Panel yn ei ystyried a'r hyn na fydd yn ei ystyried;
- Rhoi braslun o unrhyw fesurau blaenorol y rhoddwyd cynnig arnynt i ddatrys y gŵyn ac unrhyw faterion cefndirol;
- Rhoi cyfle i'r achwynydd wneud datganiad yn bersonol neu yn ysgrifenedig i'r panel a galw tystiolaeth yn ymwneud â'i gŵyn (Os yw'r achwynydd yn dymuno cyflwyno gwybodaeth yn ysgrifenedig, rhaid i'r wybodaeth hon ddod i law y Panel o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn dyddiad gwrandawiad y Panel);
- Gwybodaeth ategol y gofynnir amdani.

Caiff y panel a'r achwynydd alw tystion (a allai gynnwys Cadeirydd y Gynhadledd).

Mae gan y Panel 8 wythnos o'r dyddiad y **llofnodwyd a derbiniwyd** y gŵyn i roi gwybod i'r achwynydd am ei ganfyddiadau.

<u>Penderfyniad y Panel</u>
Bydd y Panel Cwynion yn penderfynu:

- A gadwodd y broses a ddilynwyd at Weithdrefnau Diogelu Cymru
- A wnaeth y penderfyniad y cwynir amdano ddilyn yn rhesymol o gadw at y gweithdrefnau mewn modd priodol;
- A wnaeth y penderfyniad y cwynir amdano ddilyn yn rhesymol o'r wybodaeth oedd ar gael i'r gynhadledd wreiddiol.

Ni all y Panel Cwynion newid penderfyniad y gynhadledd, ond fe all ailgynnull y gynhadledd amddiffyn plant i gymryd canfyddiadau'r Panel i ystyriaeth.

Bydd Cadeirydd y Panel yn ysgrifennu at yr achwynydd yn ei hysbysu am benderfyniad y panel ac yn darparu rhesymeg dros hyn. Caiff copïau o'r llythyr eu hanfon at:

- Y plentyn, os yw'n briodol i'w oedran a'i ddealltwriaeth;
- Unrhyw riant neu ofalwr arall sydd â chyfrifoldeb rhiant;
- Cadeirydd y Gynhadledd Amddiffyn Plant, sy'n destun y gŵyn;
- Rheolwr Gwasanaeth Diogelu'r awdurdod lleol;
- Unrhyw berson perthnasol arall sy'n ymwneud â'r achos a nodir gan y Panel.

Os caiff unrhyw ran o'r gŵyn ei chadarnhau, mae'n bosibl y bydd y Panel Cwynion yn gwneud argymhellion ar gyfer dysgu at y dyfodol, gan gynnwys codi'r mater gyda Grŵp Adolygu Achosion Diogelu Gwent, neu am faterion penodol i gael sylw mewn cynadleddau canlynol.

Os caiff rhan o'r gŵyn ei chadarnhau ond bod y Panel Cwynion o'r farn nad yw hyn wedi effeithio ar benderfyniad y gynhadledd, bydd penderfyniad y gynhadledd yn sefyll.

Os yw'r Panel Cwynion o'r farn y bu effaith ar benderfyniad y Gynhadledd, bydd y Panel Cwynion yn argymell ailgynnull y Gynhadledd. Dylai cynrychiolaeth gan asiantaeth fod yr un fath â'r cyfarfod gwreiddiol ond rhaid enwebu cadeirydd annibynnol gwahanol a rhaid i'r Gynhadledd gael ei hailgynnull cyn pen 15 diwrnod gwaith ar ôl penderfyniad y panel. Bydd penderfyniad y Gynhadledd wreiddiol yn dal mewn grym hyd nes i'r Gynhadledd newydd gael ei chynnal.

Mewn rhai achosion mae'n bosibl y bydd achwynwyr yn codi pryderon am asiantaethau unigol yn ystod cyfarfod y Panel. Os bydd hyn yn digwydd ac os yw'r wybodaeth a roddir yn codi pryderon ynghylch ansawdd yr ymarfer yn yr asiantaeth honno, bydd Cadeirydd y Panel yn trafod y rhain ag uwch-reolwr dynodedig yr asiantaeth dan sylw ar unwaith ar ôl cyfarfod y Panel.

Cyflwynir adroddiad ar bob cwyn am gynadleddau i Is-grŵp Cynllunio Busnes Diogelu Gwent. Bydd hyn yn cynnwys y rhai a gafodd eu datrys yng Ngham 1 a'r rhai a aeth ymlaen i Gam 2. Bydd Rheolwr Gwasanaeth Diogelu'r Awdurdod Lleol yn sicrhau bod cwynion sydd wedi cael eu delio â hwy a'u datrys yng Ngham 1 yn cael eu hadrodd bob chwarter i Uned Fusnes Bwrdd Diogelu Gwent. Bydd Uned Fusnes Bwrdd Diogelu Gwent yn sicrhau bod cwynion sy'n cael eu datrys yng Ngham 1 a Cham 2 yn cael eu hadrodd yn flynyddol i'r Grŵp Cynllunio Busnes.

***Cwynion am Gadeirydd y Gynhadledd***

*Os yw'r gŵyn am ymddygiad Cadeirydd y Gynhadledd, dylai gael ei chyfeirio yn ysgrifenedig, drwy e-bost, dros y ffôn neu'n bersonol at Reolwr Gwasanaeth Diogelu'r awdurdod lleol, a fydd yn ceisio datrys y gŵyn cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl i'r gŵyn ddod i law.*

*Os caiff y mater ei ddatrys, bydd y Rheolwr dan sylw yn anfon llythyr ymateb at yr achwynydd yn cadarnhau'r datrysiad cytunedig ac yn rhoi gwybod i'r Adran Gwynion berthnasol os yw'n briodol.*

## 4. CYNADLEDDAU AMDDIFFYN OEDOLION

Mae'n bosibl y bydd oedolyn mewn perygl, ei ofalwr neu rywun sy'n gweithredu ar ran yr oedolyn mewn perygl (twrnai, dirprwy a benodwyd gan y llys, eiriolwr proffesiynol neu unigolyn a enwebwyd) sy'n ymwneud â'r broses amddiffyn oedolion eisiau cyflwyno cwyn ynghylch un neu fwy o'r agweddau canlynol o'r Cyfarfod Strategaeth neu Gynhadledd Amddiffyn Oedolion amlasiantaethol diweddaraf. Os oes gan yr oedolyn y galluedd i gyflwyno cwyn yna ni all neb gyflwyno'r gŵyn hon heb ei gydsyniad. Os yw'r oedolyn heb alluedd i gyflwyno cwyn mae angen asesu a chofnodi hyn a gwneud penderfyniad budd pennaf ynghylch a yw er budd pennaf y person i gŵyn gael ei chyflwyno. Bydd eiriolwr yn gallu rhoi cymorth yn yr amgylchiadau hyn

- Proses y Cyfarfod Strategaeth/Cynhadledd diweddaraf o ran cadw at weithdrefnau;
- Penderfyniad/canlyniad y Cyfarfod Strategaeth/ Cynhadledd, a oedd yn ganlyniad y broses/weithdrefn a ddilynwyd.

### Cam 1 – Datrys gan y Cadeirydd

Mae Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent gyfan wedi ymrwymo i ddatrys cwynion ar y cyfle cyntaf ac ar lefel leol lle bo hyn yn bosibl. Gall llawer o faterion gael eu datrys ar y cam hwn o'r broses gan Gadeirydd y Cyfarfod Strategaeth/Cynhadledd. Efallai y bydd adegau pan nad yw Cadeirydd y Gynhadledd ar gael neu pan nad yw'n briodol i Gadeirydd y Gynhadledd geisio datrys y gŵyn ar hyn o bryd oherwydd gall y gŵyn ymwneud yn uniongyrchol, neu'n rhannol, â'i arfer neu ymddygiad. Mae arweiniad pellach ar gael ar dudalen 9 sy'n ymwneud â chwynion sy'n ymwneud â Chadeirydd y Gynhadledd. Os yw hyn yn wir, yna dylai Uwch Reolwr priodol ddelio â'r gŵyn, a fydd yn ceisio datrys y gŵyn yng Ngham 1, lle mae hyn yn bosibl, gan ddilyn y broses sy'n cael ei hamlinellu isod.

Bydd y Cadeirydd yn ceisio datrys y gŵyn cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl i'r gŵyn ddod i law. P'un a yw'r mater wedi'i ddatrys, wedi'i ddatrys yn rhannol ai peidio, bydd Cadeirydd y Gynhadledd yn anfon llythyr ymateb at yr achwynydd yn cadarnhau canlyniad Cam 1. Bydd Rheolwr Gwasanaeth Diogelu'r Awdurdod Lleol yn cadw copi o'r holl gwynion a'u canlyniadau. Er mwyn osgoi storio cwynion mewn mwy nag un lle, dylai cofnod y gŵyn gael ei gadw yn ganolog gan yr adran cwynion corfforaethol neu adran gyfatebol.

Os na chaiff y gŵyn ei datrys, bydd Cadeirydd y Gynhadledd yn rhoi gwybod i Reolwr Gwasanaeth Diogelu'r Awdurdod Lleol a fydd yn rhoi cyfle i'r achwynydd symud ymlaen i gam nesaf y weithdrefn ac, os oes angen, helpu'r achwynydd i wneud yr atgyfeiriad i Banel Cwynion Diogelu Gwent rhyngasiantaethol.

Gall cwynion gael eu gwneud mewn unrhyw fformat. Pan fu hynny dros y ffôn neu mewn sgwrs wyneb yn wyneb, bydd trawsgrifiad o'r sgwrs honno'n cael ei deipio a'i rannu gyda'r achwynydd iddo fe gael cytuno arno. Efallai y bydd angen cynorthwyo'r sawl sy'n gwneud y gŵyn, e.e. efallai y bydd angen help eiriolwr neu aelod o'r teulu arnynt. Mae Atodiad 1 yn darparu'r wybodaeth leiaf sy'n ofynnol.

Disgwylir i deuluoedd ymgysylltu â threfniadau amddiffyn oedolion trwy gydol proses Panel Cwynion rhyngasiantaethol Bwrdd Diogelu Gwent (Cam 2).

### Cam 2 - Panel Cwynion rhyngasiantaethol Diogelu Gwent

Os na ellir datrys y gŵyn ar Gam 1, yna bydd Rheolwr Gwasanaeth Diogelu'r awdurdod lleol yn rhannu'r holl wybodaeth am y gŵyn â Rheolwr Busnes Diogelu Gwent. Dylai hyn gynnwys copi

o'r llythyr y mae Cadeirydd y Gynhadledd/Awdurdod Lleol wedi'i anfon at yr achwynydd yn cadarnhau canlyniad Cam 1.

Bydd y Rheolwr Busnes yn cynnull cyfarfod o Banel Cwynion Rhyngasiantaethol Diogelu Gwent. Dylai'r panel gynnwys o leiaf tri chynrychiolydd o'r Bwrdd perthnasol, y bydd un ohonynt yn cadeirio. Bydd un aelod o'r panel yn weithiwr cymdeithasol cymwysedig gyda phrofiad perthnasol. Ni fydd y Panel yn cynnwys unrhyw unigolyn sydd wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r achos sy'n cael ei wrando ac felly bydd yn sicrhau'r annibyniaeth fwyaf posibl yn y broses hon.

Bydd y Rheolwr Busnes yn dosbarthu'r holl ddogfennau perthnasol i aelodau'r panel gan gynnwys y gŵyn wreiddiol ac unrhyw adroddiadau perthnasol.

Rhoddir gwybod i'r achwynydd am y cyfarfod a rhoddir cyfle iddo fod yn bresennol. Bydd gan yr achwynydd yr hawl i ddod gyda pherson o'i ddewis i'w gefnogi ond nid i'w gynrychioli. Bydd y panel yn cynnig dewis o ddau ddyddiad ar gyfer cyfarfod y panel a chynigir hyn ddwywaith yn unig (h.y. cyfanswm o 4 dyddiad) a byddai'r dyddiadau hyn yn cyd-fynd ag unrhyw gynadleddau sy'n mynd rhagddynt. Os canfyddir bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd i sicrhau dyddiad rhesymol ac nad yw hyn wedi llwyddo, yna mae'r Bwrdd Diogelu'n cadw'r hawl i ddod â'r broses i ben.

Yng nghyfarfod y Panel, bydd y cadeirydd yn gyfrifol am:

- Gyflwyno'r cyfarfod ac esbonio ei ddiben;
- Esbonio'r hyn y bydd y Panel yn ei ystyried a'r hyn na fydd yn ei ystyried;
- Rhoi braslun o unrhyw fesurau blaenorol y rhoddwyd cynnig arnynt i ddatrys y gŵyn ac unrhyw faterion cefndirol;
- Rhoi cyfle i'r achwynydd wneud datganiad yn bersonol neu yn ysgrifenedig i'r panel a galw tystiolaeth yn ymwneud â'i gŵyn (Os yw'r achwynydd yn dymuno cyflwyno gwybodaeth yn ysgrifenedig, rhaid i'r wybodaeth hon ddod i law y Panel o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn dyddiad gwrandawiad y Panel).
- Yr wybodaeth atodol y gofynnwyd amdai

Caiff y panel a'r achwynydd alw tystion.

Mae gan y Panel 8 wythnos o'r dyddiad y **llofnodwyd a derbiniwyd** y gŵyn i roi gwybod i'r achwynydd am ei ganfyddiadau.

<u>Penderfyniad y Panel</u>

Bydd y Panel Cwynion yn penderfynu:

- A wnaeth y broses a ddilynwyd gadw at Weithdrefnau Diogelu Cymru
- A wnaeth y penderfyniad y cwynir amdano ddilyn yn rhesymol o gadw at y gweithdrefnau mewn modd priodol;
- A wnaeth y penderfyniad y cwynir amdano ddilyn yn rhesymol o'r wybodaeth oedd ar gael i'r gynhadledd wreiddiol.

Ni all Panel Cwynion Diogelu Gwent newid penderfyniad y Cyfarfod Strategaeth/ Cynhadledd, ond fe all ailgynnull y Gynhadledd i gymryd canfyddiadau'r Panel i ystyriaeth.

Bydd Cadeirydd y Panel yn ysgrifennu at yr achwynydd yn ei hysbysu am benderfyniad y panel ac yn darparu rhesymeg dros hyn. Caiff copïau o'r llythyr eu hanfon at:

- Yr oedolyn, os oes galluedd ganddo;
- Unrhyw berson arall sydd â chyfrifoldeb gofalu (os yw'r oedolyn heb alluedd meddyliol i gydsynio i rannu gwybodaeth fel hyn, a'i bod er ei fudd pennaf i'w rhannu);
- Cadeirydd y Cyfarfod Strategaeth/ Cynhadledd Amddiffyn Oedolion, sy'n destun y gŵyn;
- Rheolwr Gwasanaeth Diogelu'r awdurdod lleol;
- Unrhyw berson perthnasol arall sy'n ymwneud â'r achos a nodir gan y Panel.

Os caiff unrhyw ran o'r gŵyn ei chadarnhau, mae'n bosibl y bydd Panel Cwynion Diogelu Gwent yn gwneud argymhellion ar gyfer dysgu at y dyfodol, gan gynnwys codi'r mater gyda Grŵp Adolygu Achosion Diogelu Gwent, neu am faterion penodol i gael sylw mewn cynadleddau canlynol.

Os caiff rhan o'r gŵyn ei chadarnhau ond bod y Panel o'r farn nad yw hyn wedi effeithio ar benderfyniad y Cyfarfod Strategaeth/ Cynhadledd, bydd penderfyniad y Cyfarfod Strategaeth/ Cynhadledd yn sefyll.

Os yw Panel Cwynion Diogelu Gwent o'r farn y bu effaith ar benderfyniad y Cyfarfod Strategaeth/Cynhadledd, bydd y Panel Cwynion yn argymell ailgynnull y Cyfarfod Strategaeth/ Cynhadledd. Dylai cynrychiolwyr asiantaethau fod yr un rhai â'r cyfarfod gwreiddiol ond rhaid enwebu cadeirydd annibynnol gwahanol a rhaid i'r Cyfarfod Strategaeth/ Cynhadledd gael ei ailgynnull cyn pen 15 diwrnod gwaith ar ôl penderfyniad y panel. Bydd penderfyniad y Cyfarfod Strategaeth/Cynhadledd gwreiddiol yn dal mewn grym hyd nes i'r Gynhadledd newydd gael ei chynnal.

Mewn rhai achosion mae'n bosibl y bydd achwynwyr yn codi pryderon am asiantaethau unigol yn ystod cyfarfod y Panel. Os bydd hyn yn digwydd ac os yw'r wybodaeth a roddir yn codi pryderon ynghylch ansawdd yr ymarfer yn yr asiantaeth honno, bydd Cadeirydd y Panel yn trafod y rhain ag uwch-reolwr dynodedig yr asiantaeth dan sylw ar unwaith ar ôl cyfarfod y Panel.

Cyflwynir adroddiad ar bob cwyn am gynadleddau i Is-grŵp Cynllunio Busnes Diogelu Gwent. Bydd hyn yn cynnwys y rhai a gafodd eu datrys yng Ngham 1 a'r rhai a aeth ymlaen i Gam 2. Bydd Rheolwr Gwasanaeth Diogelu'r Awdurdod Lleol yn sicrhau bod cwynion sydd wedi cael eu delio â hwy a'u datrys yng Ngham 1 yn cael eu hadrodd bob chwarter i Uned Fusnes Bwrdd Diogelu Gwent. Bydd Uned Fusnes Bwrdd Diogelu Gwent yn sicrhau bod cwynion sy'n cael eu datrys yng Ngham 1 a Cham 2 yn cael eu hadrodd yn flynyddol i'r Grŵp Cynllunio Busnes.

### *Cwynion am Gadeirydd y Gynhadledd*

Os yw'r gŵyn am ymddygiad Cadeirydd y Gynhadledd dylai gael ei chyfeirio yn ysgrifenedig, dros y ffôn neu'n bersonol at Reolwr Gwasanaeth Diogelu'r awdurdod lleol, a fydd yn ceisio datrys y gŵyn cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl i'r gŵyn ddod i law. Os mai cadeirydd y gynhadledd a Rheolwr y Gwasanaeth Diogelu yw'r un person, byddai angen i uwch reolwr arall fynd i'r afael â'r gŵyn.
Os caiff y mater ei ddatrys, bydd yr uwch reolwr dan sylw yn anfon llythyr ymateb at yr achwynydd yn cadarnhau'r datrysiad cytunedig ac yn rhoi gwybod i'r Adran Gwynion berthnasol os yw'n briodol.

## 5. ADOLYGIADAU YMARFER PLANT AC OEDOLION

Mae canllawiau statudol Llywodraeth Cymru (Cyfrolau 2 a 3 o ‘Gweithio Gyda’n Gilydd i Ddiogelu Pobl’), a gyhoeddwyd yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Diogelu fod â phroses ar waith i reoli cwynion ynghylch Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion. Mae angen i’r broses hon gymryd natur amlasiantaethol Adolygiadau Ymarfer i ystyriaeth.

### Beth ellir cwyno amdano?

Gall unrhyw un sy’n ymwneud yn uniongyrchol â’r broses Adolygiadau Ymarfer Oedolion neu Blant neu y mae’r broses honno’n effeithio arno gyflwyno cwyn a fydd yn cael ei hystyried gan y Bwrdd. Ystyrir cwynion ynghylch un neu fwy o’r agweddau canlynol ar y broses:

- Y penderfyniad ynghylch bwrw ymlaen ag Adolygiad Ymarfer Plant neu Oedolion ai peidio;
- Y broses a ddilynwyd o ran cadw at y canllawiau statudol;
- Cynnwys yr adroddiad.

### Cam 1 – Datrys gan Gadeiryddion Byrddau Diogelu Gwent

Mae Bwrdd Diogelu Gwent wedi ymrwymo i ddatrys cwynion ar y cyfle cyntaf ac ar lefel leol os yw hynny’n bosibl.

Dylid cyflwyno cwyn yn ysgrifenedig neu dros y ffôn i Gyd-gadeiryddion naill ai Bwrdd Diogelu Plant De Ddwyrain Cymru neu Fwrdd Diogelu Oedolion Gwent trwy Reolwr Busnes Diogelu Gwent. Bydd y Cyd-gadeiryddion yn ceisio datrys y gŵyn cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl cytuno i’r gŵyn. Os caiff y mater ei ddatrys, bydd y Rheolwr Busnes yn anfon llythyr ymateb at yr achwynydd yn cadarnhau’r datrysiad cytunedig ac yn rhoi gwybod i Gadeirydd Grŵp Adolygu Achosion Diogelu Gwent a Chadeirydd y Panel Adolygu, os yw hynny’n briodol.

Os na chaiff y gŵyn ei datrys, dylai’r Rheolwr Busnes roi gwybod i Gadeirydd Grŵp Adolygu Achosion Diogelu Gwent bod yr achwynydd eisiau mynd ymlaen i gam nesaf y weithdrefn, sef Panel Cwynion Rhyngasiantaethol Diogelu Gwent.

Ar y cam hwn bydd angen i’r gŵyn fod mewn fformat ysgrifenedig. Mae’n bosibl y bydd ar yr achwynydd angen cymorth i roi ei gŵyn mewn fformat ysgrifenedig (gweler Atodiad 1).

### Cam 2 – Panel Cwynion Rhyngasiantaethol

Bydd y Rheolwr Busnes yn cynnull cyfarfod o Banel Cwynion rhyngasiantaethol Diogelu Gwent. Dylai’r panel gynnwys o leiaf tri chynrychiolydd o’r Bwrdd perthnasol, y bydd un ohonynt yn cadeirio. Ni fydd y Panel yn cynnwys unrhyw unigolyn sydd wedi ymwneud yn uniongyrchol â’r achos/adolygiad ac felly bydd yn sicrhau’r annibyniaeth fwyaf posibl yn y broses hon.

Bydd y Rheolwr Busnes yn dosbarthu’r holl ddogfennau perthnasol i aelodau’r panel gan gynnwys y gŵyn wreiddiol ac unrhyw adroddiadau perthnasol.

Rhoddir gwybod i’r achwynydd am y cyfarfod a rhoddir cyfle iddo fod yn bresennol. Bydd gan yr achwynydd yr hawl i ddod gyda pherson o'i ddewis i'w gefnogi fel y bo'n briodol ond nid i'w gynrychioli.

Yng nghyfarfod y Panel, bydd y cadeirydd yn gyfrifol am:

- Gyflwyno'r cyfarfod ac esbonio ei ddiben;
- Esbonio'r hyn y bydd y Panel yn ei ystyried a'r hyn na fydd yn ei ystyried;
- Rhoi braslun o unrhyw fesurau blaenorol y rhoddwyd cynnig arnynt i ddatrys y gŵyn ac unrhyw faterion cefndirol;
- Rhoi cyfle i'r achwynydd wneud datganiad yn bersonol neu yn ysgrifenedig i'r panel a galw tystiolaeth yn ymwneud â'i gŵyn (Os yw'r achwynydd yn dymuno cyflwyno gwybodaeth yn ysgrifenedig, rhaid i'r wybodaeth hon ddod i law y Panel o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn dyddiad gwrandawiad y Panel).

Caiff y panel a'r achwynydd alw tystion.

Mae gan y Panel 25 diwrnod gwaith o'r dyddiad y cytunwyd i'r gŵyn i roi gwybod i'r achwynydd am ei ganfyddiadau.

<u>Penderfyniad y Panel</u>

Bydd y Panel Cwynion yn penderfynu:

- A wnaeth y broses a ddilynwyd gadw at y canllawiau statudol o dan Ran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cyfrolau 2 a 3 ar Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion.
- A wnaeth y penderfyniad y cwynir amdano ddilyn yn rhesymol o gadw at y canllawiau statudol mewn modd priodol;
- A wnaeth y penderfyniad y cwynir amdano ddilyn yn rhesymol o'r wybodaeth oedd ar gael i gyfarfod gwreiddiol yr Is-grŵp neu'r Panel Adolygiad Ymarfer Plant/Oedolion.

Bydd Cadeirydd y Panel yn ysgrifennu at yr achwynydd yn ei hysbysu am benderfyniad y panel ac yn darparu rhesymeg dros hyn. Caiff copïau o'r llythyr eu hanfon at:

- Y plentyn/oedolyn mewn perygl, os yw'n briodol;
- Unrhyw berson arall sydd â chyfrifoldeb gofalu, os yw'n briodol;
- Cyd-gadeiryddion naill ai Bwrdd Diogelu Plant De Ddwyrain Cymru neu Fwrdd Diogelu Oedolion Gwent gyfan;
- Cadeirydd Grŵp Adolygu Achosion Diogelu Gwent;
- Cadeirydd y Panel Adolygiad Ymarfer Plant/Oedolion, os yw'n briodol;
- Unrhyw berson perthnasol arall sy'n ymwneud â'r achos a nodir gan y Panel.

Gall y Panel Cwynion argymell ailgynnull cyfarfod y Grŵp Adolygu Achosion neu Banel Adolygiad Ymarfer Plant/Oedolion gwreiddiol i gymryd canfyddiadau'r Panel Cwynion i ystyriaeth. Rhaid enwebu cadeirydd annibynnol gwahanol ac ailgynnull y cyfarfod cyn pen 15 diwrnod gwaith ar ôl penderfyniad y panel.

Os caiff unrhyw ran o'r gŵyn ei chadarnhau, bydd y Panel Cwynion yn cyfeirio ei argymhellion at y cyfarfod a ailgynullir. Bydd y penderfyniad gwreiddiol yn dal mewn grym hyd nes i'r cyfarfod newydd gael ei gynnal.

Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd achwynwyr yn codi pryderon am asiantaethau unigol yn ystod cyfarfod y Panel. Os bydd hyn yn digwydd ac os yw'r wybodaeth a roddir yn codi pryderon ynghylch ansawdd yr ymarfer yn yr asiantaeth honno, bydd Cadeirydd y Panel yn trafod y rhain ag uwch-reolwr dynodedig yr asiantaeth dan sylw ar unwaith ar ôl cyfarfod y Panel.

## 6. CWYNION HEB EU DATRYS

Panel Cwynion Rhyngasiantaethol Diogelu Gwent yw’r cam olaf o’r Weithdrefn Cwynion Diogelu. Os yw'r achwynydd yn parhau i fod yn anfodlon â gweithredoedd asiantaeth unigol yna gall ef/hi fynd ar drywydd cwyn drwy weithdrefn cwyno asiantaeth unigol neu gysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed, CF35 5LJ
Ffôn: 0300 790 0203 Ffacs: (01656) 641199

## 7. ADRODD

Rhoddir adroddiad ar nifer y cwynion sy’n cael eu datrys ar Gam 1 o’r Broses Gwynion gan Reolwr Gwasanaeth Diogelu’r awdurdod lleol i Reolwr Busnes Diogelu Gwent a fydd yn hysbysu Grŵp Cynllunio Busnes Diogelu Gwent (a’r Grŵp Adolygu Achosion os yw’n ymwneud ag Adolygiad Ymarfer Plant neu Oedolion).

Rhoddir gwybodaeth hefyd am gwynion a gyflwynir o dan Gam 2 o’r Broses Gwynion i Grŵp Cynllunio Busnes Diogelu Gwent (a’r Grŵp Adolygu Achosion os yw’n ymwneud ag Adolygiad Ymarfer Plant neu Oedolion).

Rhoddir adroddiad yn ddienw am bob cwyn sy’n ymwneud â’r broses Adolygiadau Ymarfer Oedolion neu Blant i Grŵp Adolygu Achosion Diogelu Gwent gan Reolwr Busnes Diogelu Gwent, at ddiben dysgu thematig.

## todiad 1 – Ffurflen Gwyno Bwrdd Diogelu Gwent

| | |
|---|---|
| **Enw’r person dan sylw:** | |
| **Cyfeiriad:** | |
| **Dyddiad y cyfarfod (os yw’n berthnasol):** | |
| **Cadeirydd y cyfarfod (os yw’n berthnasol):** | |
| **Enw’r person sy’n cyflwyno’r gŵyn:** | |
| **Perthynas â’r person uchod:** | |
| **Cyfeiriad:** | |
| **Rhif ffôn:** | |
| **Cyfeiriad e-bost:** | |

| | |
|---|---|
| Rhowch fanylion eich cwyn isod | |
| Llofnodwyd: | Dyddiad: |

Anfonwch at:
Gwent Safeguarding Board Business Unit
Ground Floor
Brecon House
Mamhilad Park Estate
Pontypool
Torfaen
NP4 0HZ
**E-bost: DiogeluGwent@caerffili.gov.uk**
**Ffôn: 01443 864373**

**Atodiad 2**

**Taflenni ar gyfer Achwynwyr**

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Bwrdd Diogelu

# Gwent

# Cwynion

# Cyfarfodydd a Chynadleddau Strategaeth Amddiffyn Oedolion



| | | |
|---|---|---|
| Mae bod yn rhan o broses ddiogelu yn brofiad anodd i unrhyw oedolyn sydd wedi profi esgeulustod neu gamdriniaeth, a'r bobl sy'n gofalu amdanyn nhw. Dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod oedolion a'u gofalyddion yn cael gwybod a bod yn rhan o'r broses ddiogelu, a'u bod yng nghanol y gwaith i sicrhau eu diogelwch a'u lles.<br><br>Fodd bynnag, bydd achlysuron pan fydd oedolyn, eu gofalydd neu rywun sy'n gweithredu ar ran yr oedolyn mewn perygl (atwrnai, dirprwy a benodir gan y llys, eiriolwr proffesiynol neu unigolyn enwebedig) am gwyno am eu profiad neu ganlyniad y broses ddiogelu.<br><br>**Sut i gwyno:**<br>Dylid gwneud cwyn yn ysgrifenedig, trwy e-bost, dros y ffôn neu'n bersonol i Gadeirydd y Gynhadledd o fewn 10 diwrnod gwaith i'r gynhadledd. Mae manylion llawn Gweithdrefn Cwynion Bwrdd Diogelu Gwent i'w gweld yn www.gwentsafeguarding.org.uk/cy) | **Cewch gwyno am y 2 reswm canlynol:**<br>• Dydych chi ddim yn credu y cafodd y broses/gweithdrefnau cywir eu dilyn.<br>• Dydych chi ddim yn cytuno â phenderfyniad/canlyniad y cyfarfod strategaeth/cynhadledd, gan fod y broses a ddilynwyd wedi effeithio arno.<br><br>**Beth i'w ddisgwyl os ydych chi'n cwyno:**<br>***Defnyddir dau gam i edrych ar eich cwyn:***<br>**Cam 1 -** Bydd y Cadeirydd yn siarad â chi ac yn ceisio helpu gyda'ch cwyn. Os nad yw'r Cadeirydd ar gael neu os yw'r gŵyn yn ymwneud â hwy, dylai'r uwch reolwr ddelio â'r gŵyn. Os nad oes modd iddyn nhw helpu, byddan nhw'n rhoi cyfle i chi symud ymlaen i Gam 2 - Cwyn Ffurfiol.<br><br>Yng Ngham 2 bydd Bwrdd Diogelu Gwent yn trefnu cyfarfod o Banel Annibynnol i edrych ar eich cwyn. Mae esboniad llawn o'r rhan hon o'r broses ar gael yn (yma) Mae gan y Panel 8 wythnos o'r dyddiad y cafodd y gŵyn ei llofnodi a'i derbyn i roi gwybod i chi o'u canfyddiadau. | **Canlyniadau Posibl Cwynion:**<br>• Gall y panel gynnal eich cwyn a gwneud argymhelliad y dylid ail-ymgynnull y Cyfarfod Strategaeth / Cynhadledd Amddiffyn Oedolion.<br>• Os cynhelir unrhyw ran o'r gŵyn gellir gwneud argymhellion ar gyfer dysgu yn y dyfodol, gan gynnwys edrych ar faterion penodol y dylid mynd i'r afael â hwy mewn cynadleddau dilynol.<br>• Pan fydd unrhyw ran o'r gŵyn yn cael ei chynnal ond na effeithiwyd ar benderfyniad y cyfarfod, bydd y penderfyniad yn sefyll.<br>• Ni chaiff y gŵyn ei chynnal ac ni ystyrir bod angen gweithredu ymhellach. |

**Bwrdd Diogelu Gwent**
**Dyma'r ddolen ar gyfer y ffurflen er mwyn gwneud cwyn am Gyfarfodydd a Chynadleddau'r Strategaeth Amddiffyn Oedolion** yma

**Neu gofynnwch am gopi oddi wrth**
DiogeluGwent@caerffili.gov.uk

**Dychwelwch bob ffurflen i:**
DiogeluGwent@caerffili.gov.uk

Y panel cwynion yw cam olaf y broses hon ac nid ydych chi'n gallu apelio ymhellach i'r bwrdd. Os ydych chi'n parhau i fod yn anhapus â gweithredoedd asiantaeth unigol, efallai yr hoffech chi wneud cwyn drwy weithdrefn gwyno'r asiantaeth unigol honno neu gysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

**Os ydych chi'n parhau i fod yn anhapus ag asiantaeth unigol, cysylltwch ag:**
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ
Ffôn: 0300 790 0203 Ffacs: (01656) 641199 ) 641199

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Bwrdd Diogelu
# Gwent
# Cwynion
# am
# Gynadleddau
# Amddiffyn Plant



Dyluniwyd y daflen hon ar gyfer rhieni, gofalyddion, pobl ifanc a'u heiriolwyr sy'n mynychu Cynadleddau Amddiffyn Plant yng Ngwent. Pan fydd plant a'u rhieni/gofalyddion yn cymryd rhan mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant, mae pawb sy'n cymryd rhan yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y broses mor glir a syml â phosibl.

**Sut i gwyno:**
Dylid gwneud cwyn yn ysgrifenedig, trwy e-bost, dros y ffôn neu'n bersonol i Gadeirydd y Gynhadledd o fewn 10 diwrnod gwaith i'r gynhadledd. Mae manylion llawn Gweithdrefn Cwynion Bwrdd Diogelu Gwent i'w gweld yn www.gwentsafeguarding.org.uk/cy

**Pryd bynnag y bydd cwyn yn cael ei derbyn, byddwn ni'n sicrhau :**

- i ddelio â hi yn gyflym (cyn pen 10 diwrnod ar ôl i gadeirydd y gynhadledd dderbyn y gŵyn)
- bod y person iawn yn delio â hi
- bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i ddatrys unrhyw broblemau
- byddwn ni'n ymddiheuro os ydyn ni wedi gwneud camgymeriad

**Cewch gwyno am y 3 rheswm canlynol:**

- Dydych chi ddim yn credu y cafodd y broses gywir ei dilyn.
- Dydych chi ddim yn cytuno â'r penderfyniad i roi plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant, neu ei dynnu oddi ar y gofrestr, gan fod y broses a ddilynwyd wedi effeithio arno.
- Dydych chi ddim yn cytuno â'r rheswm y cafodd y plentyn ei gofrestru. Gelwir hyn yn 'gategori cofrestru', gan fod y broses a ddilynwyd wedi effeithio arno

**Beth i'w ddisgwyl os ydych chi'n cwyno:**

***Defnyddir dau gam i edrych ar eich cwyn:***

Cam 1 - Bydd y Cadeirydd yn siarad â chi ac yn ceisio helpu gyda'ch cwyn. Os ydych chi'n dal yn anhapus bydd y Cadeirydd yn rhoi gwybod i'r Rheolwr Gwasanaeth Diogelu a fydd yn ceisio helpu gyda'r gŵyn. Os nad oedd modd iddyn nhw helpu byddan nhw'n rhoi cyfle i chi symud ymlaen i Gam 2 - Cwyn Ffurfiol. Yng Ngham 2 bydd yr holl wybodaeth yn cael ei rhannu â Rheolwr Busnes Bwrdd Diogelu Gwent.

Byddan nhw'n trefnu cyfarfod o Banel Annibynnol i edrych ar eich cwyn. Mae'r esboniad llawn o'r rhan hon o'r broses ar gael yn yma

**Canlyniadau Posibl Cwynion:**

- Gall y panel gynnal eich cwyn a gwneud argymhelliad y dylid ail-ymgynnull y Gynhadledd Amddiffyn Plant
- Ni chaiff y gŵyn ei chynnal ond gwneir argymhellion ar gyfer dysgu yn y dyfodol, gan gynnwys edrych ar faterion penodol y dylid mynd i'r afael â hwy mewn cynadleddau dilynol.
- Ni chaiff y gŵyn ei chynnal ac ni ystyrir bod angen gweithredu ymhellach.

**Bwrdd Diogelu Gwent**
**Dyma'r ddolen ar gyfer y ffurflen er mwyn gwneud cwyn am Gynadleddau'r Gwasanaeth Amddiffyn Plant** yma

**Neu gofynnwch am gopi oddi wrth**
DiogeluGwent@caerffili.gov.uk

**Dychwelwch bob ffurflen i:**
DiogeluGwent@caerffili.gov.uk

Y panel cwynion yw cam olaf y broses hon ac nid ydych chi'n gallu apelio ymhellach i'r bwrdd. Os ydych chi'n parhau i fod yn anhapus â gweithredoedd asiantaeth unigol, efallai yr hoffech chi wneud cwyn drwy weithdrefn gwyno'r asiantaeth unigol honno neu gysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

**Os ydych chi'n parhau i fod yn anhapus, cysylltwch ag:**
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ
Ffôn: 0300 790 0203 Ffacs: (01656) 641199

Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Bwrdd Diogelu
# Gwent
# Cwynion
# Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion



| **Gwneud cwyn:**<br>Rydyn ni'n gobeithio y byddwn ni'n gallu ymateb i unrhyw gwestiynau neu bryderon sydd gennych chi. Fodd bynnag, os ydych yn teimlo nad oes modd i ni wneud hynny, gallwch godi pryderon ar ffurf cwyn.<br><br>**Sut i gwyno:**<br>Dylid gwneud cwyn yn ysgrifenedig, trwy e-bost, dros y ffôn neu'n bersonol i Gadeirydd Bwrdd Diogelu Plant De Ddwyrain Cymru neu Fwrdd Diogelu Oedolion Gwent trwy Reolwr Busnes Diogelu Gwent. Bydd y Cadeiryddion yn ceisio datrys y gŵyn o fewn 10 diwrnod gwaith o dderbyn y gŵyn. (Mae manylion llawn Gweithdrefn Cwynion Bwrdd Diogelu Gwent i'w gweld yn www.gwentsafeguarding.org.uk/cy)<br><br>**Cewch gwyno am y 3 rheswm canlynol:**<br>• Y penderfyniad ynghylch a ddylid bwrw ymlaen ag Adolygiad Ymarfer Plant neu Oedolion ai peidio;<br>• Y broses a ddilynwyd o ran cadw at y canllawiau statudol<br>• Cynnwys yr adroddiad | **Beth i'w ddisgwyl os ydych chi'n cwyno:**<br><br>**Cam 1 - Penderfyniad gan Gadeiryddion Bwrdd Diogelu Gwent**<br><br>Os yw'r Cadeirydd wedi gallu helpu a bod y mater wedi'i ddatrys, bydd y Rheolwr Busnes yn anfon llythyr ymateb atoch chi yn cadarnhau'r camau y cytunwyd arnyn nhw ac yn rhoi gwybod i Gadeirydd Grŵp Adolygu Achos Diogelu Gwent a Chadeirydd y Panel Adolygu, os yw hyn yn briodol.<br><br>Os nad ydyn ni wedi gallu helpu ac na chaiff y gŵyn ei datrys, bydd y Rheolwr Busnes yn rhoi gwybod i Gadeirydd Grŵp Adolygu Achos Diogelu Gwent eich bod am fynd i **Gam 2** y Panel Cwynion Diogelu Rhyngasiantaethol Gwent.<br><br>**Cam 2 - Panel Cwynion Rhyngasiantaethol**<br><br>Bydd y Rheolwr Busnes yn trefnu cyfarfod gydag o leiaf dri chynrychiolydd o'r Bwrdd, a bydd un ohonyn nhw'n gweithredu fel cadeirydd. Ni fydd y Panel yn cynnwys unrhyw asiantaeth sydd wedi chwarae rhan uniongyrchol yn yr achos/adolygiad a fydd yn sicrhau'r annibyniaeth fwyaf yn y broses hon.<br><br>Mae gan y Panel 8 wythnos o ddyddiad y cafodd y gŵyn ei llofnodi a'i derbyn i roi gwybod i chi o'u canfyddiadau. | **Canlyniad Posibl Cwynion:**<br><br>• Gall y Panel argymell bod cyfarfod gwreiddiol y Grŵp Adolygu Achos neu Banel CPR / APR yn cael ei gynnal eto i edrych ar ganfyddiadau'r Panel Cwynion. Rhaid enwebu Cadeirydd annibynnol gwahanol, ac ailymgynnull y cyfarfod o fewn 15 diwrnod gwaith o benderfyniad y Panel.<br><br>• Os cynhelir unrhyw ran o'r gŵyn, bydd y Panel Cwynion yn cyfeirio eu hargymhellion i'r cyfarfod sydd wedi'i ail-ymgynnull. Bydd y penderfyniad gwreiddiol yn aros yn ei le nes bydd y cyfarfod wedi'i ail-ymgynnull.<br><br>• Mewn rhai achosion, gall achwynwyr godi pryderon am asiantaethau unigol. Bydd Cadeirydd y Panel yn trafod y rhain gydag Uwch Reolwr yr asiantaeth dan sylw yn syth ar ôl cyfarfod y Panel.<br><br>• Ni chaiff y gŵyn ei chynnal ac ni ystyrir bod angen cymryd unrhyw gamau pellach. |
|---|---|---|

**Bwrdd Diogelu Gwent**
**Dyma'r ddolen ar gyfer y ffurflen er mwyn gwneud cwyn am Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion** yma

**Neu gofynnwch am gopi oddi wrth**
DiogeluGwent@caerffili.gov.uk

**Dychwelwch bob ffurflen i:**
DiogeluGwent@caerffili.gov.uk

Y panel cwynion yw cam olaf y broses hon ac nid ydych chi'n gallu apelio ymhellach i'r bwrdd. Os ydych chi'n parhau i fod yn anhapus â gweithredoedd asiantaeth unigol, efallai yr hoffech chi wneud cwyn drwy weithdrefn gwyno'r asiantaeth unigol honno neu gysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

**Os ydych chi'n parhau i fod yn anhapus, cysylltwch ag:**
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ
Ffôn: 0300 790 0203 Ffacs: (01656) 641199